Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint

**Neuadd y Dref**
**Wrecsam**
**LL11 1AY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint

Sefydlwyd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2021. Mae'n bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r bartneriaeth yn cyflogi pum darparwr arweiniol i gyflwyno'r rhan fwyaf o'i darpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sef Hamdden a Llyfrgelloedd Aura (cyrsiau cyflogadwyedd yn Sir y Fflint), Partneriaeth Parc Caia (cyrsiau cyflogadwyedd yn Wrecsam), Coleg Cambria (sgiliau hanfodol yn Wrecsam), Ymddiriedolaeth Gymunedol Glannau Dyfrdwy (cyrsiau ymgysylltu yn Sir y Fflint) a Groundwork Gogledd Cymru (sgiliau hanfodol yn Sir y Fflint).

Yn ogystal â'r pum darparwr arweiniol, mae gan y bartneriaeth sylfaen partneriaid ehangach gyda chynrychiolaeth o Addysg Oedolion Cymru, darpariaeth graidd sgiliau oedolion Coleg Cambria, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cymunedau am Waith, sefydliadau'r sector gwirfoddol a darparwyr eraill ar gyfer cymorth iechyd a lles.

Caiff y ddarpariaeth achrededig ar gyfer Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn yr ardal ei chynnig gan Coleg Cambria, a'i hariannu trwy eu grant addysg bellach. Mae'r bartneriaeth yn cynnig ychydig bach o ddarpariaeth SSIE heb ei hachredu i ymgysylltu â dysgwyr newydd.

Dywed Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2020 fod gan Wrecsam boblogaeth o ryw 136,000. Mae tua 20% o'r boblogaeth yn 65 oed ac yn hŷn. Mae gan Sir y Fflint boblogaeth o ryw 157,000. Mae tua 21% o boblogaeth Sir y Fflint yn 65 oed ac yn hŷn.

Yn 2021, y gyfradd gyflogaeth yn Wrecsam oedd 75%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 73%. Yn Sir y Fflint, y gyfradd gyflogaeth oedd 78%, sydd hefyd uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Yn 2021, ar y cyfan, roedd y boblogaeth o oedran gweithio yn ardaloedd Sir y Fflint yn meddu ar gymwysterau uwch nag yn Wrecsam, er bod cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd â chymwysterau lefel 3 neu 4 yn y ddwy ardal yn is na chyfartaledd Cymru. Roedd gan Wrecsam gyfran uwch o oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau neu gyda chymwysterau ar lefel 2 na chyfartaledd Cymru. Hefyd, roedd gan Sir y Fflint gyfran uwch o oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau na chyfartaledd Cymru, ond yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru ar gyfer cyfran yr oedolion oedran gweithio sydd â chymwysterau ar lefel 2.

Yn 2021, yr enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn Wrecsam oedd £564. Hwn oedd yr 8fed uchaf o 22 awdurdod lleol Cymru. Yn Sir y Fflint, yr enillion wythnosol gros (canolrif) oedd £574, sef y chweched uchaf o 22 awdurdod lleol Cymru.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 yn dangos mai cyfran yr ardaloedd bach ym mhob awdurdod lleol sydd yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig oedd 12% ar gyfer Wrecsam (wythfed lleiaf difreintiedig yng Nghymru) ac 11% ar gyfer Sir y Fflint (chweched lleiaf difreintiedig). Mae hyn yn dangos bod gan

awdurdodau lleol ardaloedd o amddifadedd ac anfantais, ond llai na’r mwyafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn 2021, canran y siaradwyr Cymraeg tair oed neu’n hŷn yn Wrecsam oedd 27%. Yn Sir y Fflint, roedd yn 24%. Mae hyn yn cymharu â 30% yn genedlaethol.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi aildrefnu’r dyraniadau cyllid ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru. Yn 2021-2022, cafodd Sir y Fflint a Wrecsam gynnydd sylweddol mewn cyllid dysgu oedolion yn y gymuned.

Yn ystod 2021-2022, cofrestrodd 2,100 o ddysgwyr ar gyrsiau’r bartneriaeth.

## Crynodeb

Caiff Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar, ei harwain yn dda, ac fe gaiff gefnogaeth gref gan y ddau awdurdod lleol i gyflwyno darpariaeth ar gyfer oedolion yn y gymuned ledled Sir y Fflint a Wrecsam. Mae arweinwyr yn gosod dyheadau uchel iawn ar gyfer y bartneriaeth, y darparwyr ac ar gyfer dysgwyr. Mae'r weledigaeth ar gyfer y bartneriaeth yn uchelgeisiol, ac yn adlewyrchu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu yn y gymuned.

Mae safleoedd gan y bartneriaeth mewn lleoliadau priodol, gan gynnwys canolfan newydd, amlbwrpas ag ynddi adnoddau da, sef Tŷ Calon, a chanolfannau mewn lleoliadau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol ar draws y ddau awdurdod.

Ceir cydbwysedd da ac amrywiaeth ddefnyddiol o gyrsiau ar gyfer oedolion sydd eisiau ymgysylltu o'r newydd ag addysg, i wella eu rhagolygon swydd, uwchraddio eu medrau Saesneg (Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill – SSIE), datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol neu wella'u hiechyd a lles. Hefyd, ceir darpariaeth sy'n fach ond yn tyfu ar gyfer dysgu teuluol, lle mae rhieni a'u plant yn chwarae a dysgu gyda'i gilydd, er enghraifft trwy ddysgu medrau treftadaeth ffeltio gwlân, yn ysgolion y plant. Nid yw darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg y bartneriaeth ar gyfer dysgwyr wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu sesiynau llythrennedd, rhifedd, digidol a SSIE. Mewn sesiynau iechyd a lles, mae dysgwyr yn mwynhau gweithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol da, yn gwneud ffrindiau newydd ac yn datblygu medrau newydd. Trwy gymryd rhan yn y cyrsiau hyn, mae llawer o ddysgwyr yn magu hyder, ac yn fwy parod i fynd ymlaen i ddysgu mwy ffurfiol.

Mae tiwtoriaid yn sefydlu perthynas dda â'u dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio'n dda ar gyfer sesiynau, ac yn cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i strwythuro eu cynlluniau datblygu unigol a gosod targedau dysgu a thargedau personol. Mewn llawer o achosion, daw tiwtoriaid â phrofiad o broffesiynau eraill, sy'n ehangu eu haddysgu. Maent yn llawn cydymdeimlad ac yn gefnogol i ddysgwyr sydd â chefndiroedd cymhleth a bregus.

Mae'r bartneriaeth yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddarpar ddysgwyr trwy roi copïau caled o brosbectysau a gwybodaeth ddwyieithog ar-lein ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol, er bod mynediad ar-lein at wybodaeth ar gyfer darpar ddysgwyr nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfyngedig.

Mae tiwtoriaid a rheolwyr yn adolygu ac addasu cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar gyrsiau sgiliau hanfodol a SSIE. Mae tiwtoriaid mewn dosbarthiadau SSIE yn darparu cymorth bugeiliol sensitif a gwerthfawr wrth gyfeirio dysgwyr sy'n ffoaduriaid at asiantaethau a all eu cynorthwyo.

Mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth realistig o'i chryfderau a meysydd i'w gwella, ac mae ganddi brosesau cynllunio clir ar gyfer gwella ansawdd. Mae wedi nodi meysydd priodol i'w gwella, gan gynnwys dulliau mwy cyson o sicrhau ansawdd

addysgu a dysgu, a datblygu system rheoli data i olrhain deilliannau a dilyniant dysgwyr.

## Argymhellion

A1 Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg

A2 Olrhain, monitro a gwerthuso cynnydd dysgwyr yn y tymor hir trwy ddarpariaeth y bartneriaeth

A3 Datblygu dull partneriaeth o ran hunanwerthuso a gwella dysgu ac addysgu ar draws darpariaeth y bartneriaeth

A4 Gwella cyfleoedd i ddysgwyr dderbyn cyngor ac arweiniad am ymuno â darpariaeth y bartneriaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi dwy astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â dysgu teuluol a sefydlu partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned newydd, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mewn dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau o'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n astudio mewn lleoliadau cymunedol cyfarwydd, yn ymgysylltu'n dda â'u hastudiaethau. O ganlyniad i'w dysgu ffurfiol, maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ehangach, fel cynnwys eu ffrindiau a'u teulu ehangach mewn gweithgareddau dysgu, ymgysylltu neu weithgareddau cymunedol.

Mae gan fwyafrif y dysgwyr gynlluniau dysgu unigol, sy'n nodi eu nodau a'u bwriadau dysgu cyffredinol. Mewn ychydig o achosion, defnyddir y rhain yn effeithiol i nodi nodau dysgu dysgwyr yn y tymor byr, a helpu dysgwyr i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mewn achosion eraill, mae dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella trwy adborth ysgrifenedig neu adborth llafar manwl. Nid oes gan ychydig o ddysgwyr ddealltwriaeth glir o beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Nid yw ychydig ohonynt yn glir ynglŷn â'u cryfderau a'u gwendidau ar ddechrau rhaglen astudio mewn llythrennedd neu rifedd.

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys darpariaeth achrededig a chyrsiau ymgysylltu anffurfiol mewn Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE). Mewn darpariaeth achrededig ac anffurfiol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau Saesneg, ac yn ennill cymwysterau yn dda, lle bo'n briodol. Mewn dosbarthiadau ymgysylltu, mae dysgwyr yn datblygu ac ennill medrau a chymwysterau ychwanegol defnyddiol hefyd, fel y prawf theori ar gyfer trwydded yrru, a medrau digidol.

Yn narpariaeth ymgysylltu amrywiol y bartneriaeth, yn ogystal â datblygu medrau crefft neu ymarferol, mae dysgwyr yn mwynhau cyfle i fod yn greadigol ac yn dod yn ymwybodol o gyfleoedd dysgu newydd. Er enghraifft, mewn sesiwn crefftau pren, mae dysgwyr yn cyfuno cyfle i sgwrsio a chymdeithasu gyda medrau datblygol mewn defnyddio offer llaw i atgyweirio ac addasu paledi a dodrefn wedi'u defnyddio. Maent yn mesur, dilyn cynlluniau a darluniau ac yn cynhyrchu gwaith y maent yn falch ohono. Mae dysgwyr yn defnyddio cyfleusterau TG yn y sesiwn i ymchwilio i brosiectau dylunio, gwneud cais am swyddi a rheoli eu cyllid. Mewn crefft siwgr, mae dysgwyr yn pobi a chreu cacennau ar gyfer ffrindiau a theulu. Yn ogystal â dysgu'r medrau crefft hyn, maent yn dysgu medrau busnes sylfaenol a sut gallant werthu'r cynnyrch i ychwanegu at eu hincymau. Mewn dosbarth celf ar gyfer oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol, mae dysgwyr yn mynegi eu hunain trwy brosiectau celf, cerddoriaeth a pherfformio ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel.

Mewn sesiynau dysgu teuluol, mae rhieni a gofalwyr yn astudio gyda'u plant yn yr ysgol. Er enghraifft, mae rhieni mewn un ysgol yn dysgu ffeltio gwlân gyda'u plant. Ar y cyd â medrau eraill, mae'r rhieni'n dysgu medrau crefft treftadaeth a sut gellir defnyddio'r rhain i greu rhoddion a chynhyrchion crefft gwerthadwy. Mae'r plant yn cael hwyl gyda'u rhieni ac yn datblygu medrau cydsymud rhwng y llaw a'r llygad, a medrau echddygol manwl. Mae rhieni a phlant yn elwa ar ddysgu a gweithio gyda'i gilydd.

Ar gyrsiau sydd â ffocws galwedigaethol a chyflogadwyedd clir, fel gofal am ewinedd a therapi harddwch, mae dysgwyr yn datblygu medrau galwedigaethol yn dda. Maent yn rhoi triniaethau ewinedd yn hyderus ac yn fedrus, ac yn ennill cymwysterau mewn gwasanaethau cwsmeriaid a medrau derbynfa, sy'n helpu eu paratoi ar gyfer hunangyflogaeth neu astudio pellach. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr ar gyrsiau ar draws y bartneriaeth yn deall yn llawn ystod yr opsiynau ar gyfer astudio pellach sydd ar gael iddynt.

Mewn llawer o sesiynau ar draws y bartneriaeth, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn ystod y sesiwn. Ar hyn o bryd, nid yw systemau'r bartneriaeth ei hun yn cofnodi'n ddigon manwl sut mae dysgwyr yn symud rhwng cyrsiau a rhwng lefelau trwy'r bartneriaeth dros gyfnod. O ganlyniad, nid yw'n bosibl nodi'n gywir, ar lefel partneriaeth, y cynnydd tymor hir a wna dysgwyr.

Mewn ychydig o sesiynau, mae dysgwyr yn defnyddio neu'n dysgu termau Cymraeg neu'n cael eu hamlygu i'r Gymraeg, er enghraifft trwy ddefnydd sgyrsiol bob dydd o'r Gymraeg neu drwy sylwadau asesiadau athrawon a chanmoliaeth gan ddefnyddio termau Cymraeg. Mewn ychydig o ddosbarthiadau SSIE, mae dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o dermau Cymraeg bob dydd, fel diwrnodau'r wythnos. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn cynnig unrhyw ddarpariaeth yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, nid yw unrhyw ddysgwyr yn astudio neu'n cymryd rhan mewn rhaglenni yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau Cymraeg yn sylweddol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

O ganlyniad i effaith y pandemig, dywed y bartneriaeth fod niferoedd uwch o ddysgwyr â gorbryder, hyder isel a phryderon ynghylch lles. Dywed llawer o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth fod eu hiechyd meddwl wedi gwella'n sylweddol trwy eu dysgu, a'u bod wedi goresgyn gorbryderon cychwynnol, fel mynychu sesiynau wyneb yn wyneb a chyfarfod â phobl newydd.

O gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr yn is o ganlyniad i effaith barhaus y pandemig, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â chyfrifoldebau gofal plant. Mae mwyafrif y dysgwyr yn rhoi gwybod i'w tiwtoriaid ymlaen llaw os na allant fynychu neu os byddant yn cyrraedd y dosbarth yn hwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau'r rhyngweithio cymdeithasol yn sgil eu profiadau dysgu, fel cwrdd â phobl a gwneud ffrindiau ar ôl cyfnodau hirfaith o ynysu. Mae dysgwyr o ychydig o gyrsiau wedi trefnu eu clybiau a'u grwpiau eu hunain lle maent yn cyfarfod y tu allan i'w dosbarthiadau i gynorthwyo'i gilydd trwy gyfnodau anodd yn eu bywydau. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi defnyddio eu profiadau dysgu i fod yn fwy annibynnol a hyderus yn gymdeithasol.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio eu profiadau dysgu i wella'u bywydau, fel cynorthwyo eu cyfrifoldebau rhianta a gofalu, neu gymryd rhan mewn rolau gwirfoddoli yn eu cymunedau. Mae mwyafrif y dysgwyr mewn dosbarthiadau SSIE yn defnyddio eu medrau iaith i gyfathrebu â ffrindiau a chydweithwyr.

Mae mwyafrif y dysgwyr wedi gwella eu rhagolygon cyflogaeth a gyrfa o ganlyniad i'r medrau newydd y maent wedi'u caffael trwy eu dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr

sy'n astudio cwrs cwnsela sylfaen yn defnyddio eu medrau i gefnogi eu swydd bresennol mewn elusen iechyd meddwl. Uchelgais dysgwyr sy'n astudio ar y cwrs cynorthwywyr addysgu hanfodol yw gwella eu cynnydd yn eu gyrfa.

Mae ychydig o ddysgwyr, o'r gymuned ffoaduriaid, yn elwa ar ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion penodol i'w helpu i integreiddio yn eu cymunedau, er enghraifft trwy gyrsiau teilwredig yn ogystal â'u cyrsiau SSIE, ar yrru, cymorth i deuluoedd neu fedrau digidol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, a bron pob un ohonynt yn mwynhau eu cyrsiau. Maent wedi dangos ffafriaeth gref dros ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dosbarthiadau, trwy gyfrannu at drafodaethau â'u cyfoedion, ateb cwestiynau a chreu gwaith ysgrifenedig. Mewn sesiynau ar-lein, mae llawer o ddysgwyr yn cyfrannu trwy ateb cwestiynau a thrwy ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio. Mewn cwrs Cymraeg a diwylliant ar-lein, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau bywiog am hanes Cymru.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, mewn darpariaeth wyneb yn wyneb ac wrth gymryd rhan mewn sesiynau ar-lein. Mae gan bron bob un ohonynt berthynas dda â'u tiwtoriaid, sy'n dangos parch ar y ddwy ochr. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod y sesiynau yn eu galluogi i rannu barn a siarad yn agored am eu profiadau bywyd.

O ganlyniad i wrando ar ddysgwyr, mae'r bartneriaeth wedi datblygu ei darpariaeth i gynnwys cyrsiau cymorth cyntaf a chyrsiau hanes teuluol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ymwybodol o'r effaith a gaiff eu safbwyntiau o ran gwella eu profiadau.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Fel rhan o'i ffurfio, mae'r bartneriaeth wedi cynnal adolygiad defnyddiol o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ledled ei hardal. Mae'r adolygiad wedi helpu'r bartneriaeth i ddeall yn well ble mae darpar ddysgwyr wedi'u lleoli a'r mathau o gyrsiau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn diwallu eu hanghenion.

Mae'r bartneriaeth yn rhagweithiol wrth gynnig darpariaeth sy'n gweddu'n agos i anghenion y rhanbarth ac anghenion dysgwyr. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda'i darparwyr arweiniol a chylch ehangach o bartneriaid, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol, i ddarparu ystod amrywiol o gyfleoedd addysgol i ddiwallu gwahanol anghenion a dyheadau dysgwyr. Mae'r bartneriaeth yn cynnig cydbwysedd da o gyrsiau byr a hir achrededig a heb eu hachredu. Mae'r cwricwlwm yn parhau y tu allan i ddyddiadau tymhorau academaidd traddodiadol, sy'n golygu bod dysgwyr yn cael parhad gwell yn y dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio cyrsiau byr heb eu hachredu yn dda i ddenu dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd sy'n llai hyderus ynglŷn â dechrau neu ailddechrau mewn addysg. Yn aml, mae'r cyrsiau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar iechyd a lles, er enghraifft, tra'n ymgorffori medrau llythrennedd, rhifedd a digidol o fewn y cynnwys. Yn ogystal â hysbysebu'r cyrsiau trwy amrywiaeth o ddulliau, fel cyfryngau cymdeithasol, taflenni a phosteri, mae'r bartneriaeth yn annog dysgwyr ar gyrsiau

heb eu hachredu i rannu eu profiadau â'u ffrindiau a'u teuluoedd i'w hannog i gymryd rhan yn y dyfodol.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod o gyrsiau achrededig defnyddiol ar gyfer dysgwyr y mae angen iddynt ddatblygu eu proffil cymwysterau i ddechrau gweithio neu wella eu safleoedd o fewn gwaith. Mae'r cyrsiau achrededig yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE). Mae'r cyrsiau hyn yn rhai hyblyg yn bennaf, sy'n helpu dysgwyr i ddysgu ar eu cyflymdra eu hunain, ac yn ystyried eu hamgylchiadau personol.

Nid yw darpariaeth y bartneriaeth i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg wedi'i datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan y bartneriaeth strategaeth glir i gynyddu'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gymryd rhan mewn cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r bartneriaeth yn datblygu darpariaeth arbenigol gydag ystod o ddarparwyr y tu hwnt i'w phartneriaid craidd. Er enghraifft, mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Heritage Skills Trust yn darparu hyfforddiant sgiliau mewn meysydd lle mae prinder a chyfleoedd cyflogaeth, er enghraifft mewn adnewyddu trenau stêm, ac atgyweirio gwaith cerrig. Mae cymhwyso'r medrau treftadaeth hyn a chymryd rhan mewn cyflogaeth yn cynyddu ymdeimlad dysgwyr o les a balchder.

Mae safleoedd gan y bartneriaeth mewn lleoliadau priodol, sy'n amrywio o ganolfannau newydd, fel canolfan amlbwrpas Tŷ Calon, i leoliadau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol ledled y ddwy sir. Trwy ei hadolygiad, mae'r bartneriaeth wedi nodi bod angen ymestyn ystod y safleoedd sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau i ddarparu mynediad haws ar gyfer dysgwyr ger eu cartrefi.

Mae'r bartneriaeth yn ymestyn ei rhaglen dysgu teuluol yn raddol i ysgolion cynradd ar draws y ddau awdurdod lleol. Mae'r rhaglenni'n cynnwys amrywiaeth o wahanol destunau i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr a'u plant. Er enghraifft, mae 'Datod y Gwlân' ('Unwinding the Wool') yn cyflwyno rhieni a phlant i fedrau treftadaeth ffeltio gwlyb a ffeltio sych. Mae'r gweithgareddau'n dod â rhieni a phlant at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog sy'n ymgorffori medrau llythrennedd, rhifedd, digidol, creadigol a datrys problemau, ymhlith rhai eraill. Os yw rhieni'n dymuno, gallant gofrestru ar gyrsiau eraill i barhau â'u dysgu eu hunain ymhellach. Mae llwyddiant y rhaglen yn annog ysgolion eraill i ofyn am ddysgu teuluol yn benodol i'w sefyllfaoedd nhw; er enghraifft, mae un ysgol wedi gofyn am sesiynau dysgu teuluol mewn Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn meddu ar gymwysterau da yn eu pynciau, mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac maent yn sefydlu perthynas dda â dysgwyr. Mewn llawer o achosion, daw tiwtoriaid â phrofiad o broffesiynau eraill, sy'n ehangu eu haddysgu. Maent yn llawn cydymdeimlad ac yn gefnogol i ddysgwyr sydd â chefndiroedd cymhleth a bregus. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio'n dda ar gyfer sesiynau, ac yn cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i strwythuro eu cynlluniau datblygu unigol, a gosod targedau dysgu a thargedau personol.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau wedi'u dewis yn dda sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn darparu sgaffald ar gyfer dysgu. Mewn llawer o achosion, dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn ystod y pandemig, mae

tiwtoriaid wedi creu deunyddiau ar-lein. Mae hyn wedi eu galluogi i gael cronfa ddefnyddiol o ddeunyddiau i gynorthwyo dysgwyr y gallai fod angen iddynt fethu dosbarth ar unrhyw adeg benodol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio cwestiynau yn effeithiol i herio ac ysgogi medrau meddwl dysgwyr, a'u medrau siarad. Maent yn darparu adborth llafar defnyddiol ar gyfer dysgwyr yn ystod sesiynau. Mewn achosion eraill, mae tiwtoriaid yn darparu adborth ysgrifenedig manwl i ymateb i ymarferion ysgrifenedig dysgwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw arferion tiwtoriaid o ran cynllunio sesiynau, holi a chyflymdra mewn sesiynau, yn ddigon effeithiol i gymell a chynnal diddordeb dysgwyr.

Mae llawer o athrawon sgiliau hanfodol, dysgu teuluol a SSIE yn darparu asesiad cychwynnol ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'r bartneriaeth i ddefnyddio un offeryn asesu cychwynnol ar gyfer yr holl ddysgwyr i sicrhau darlun cyson o waelodlinau dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r bartneriaeth yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a phriodol i ddarpar ddysgwyr trwy roi copïau caled o brosbectysau a gwybodaeth ddwyieithog ar-lein ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio'r cyfryngau hyn yn effeithlon i lywio ac arwain dysgwyr ar wahanol gamau ar eu taith ddysgu. Fodd bynnag, mae profiad dysgwyr nad ydynt yn dymuno creu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r bartneriaeth yn wahanol i'r rhai sydd â chyfrifon o'r fath. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod angen creu porth un stop ar-lein i sicrhau mynediad a phrofiad cyfartal ar gyfer darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol.

Mae llawlyfr y bartneriaeth ar gyfer dysgwyr yn darparu ystod ddefnyddiol o wybodaeth ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys arweiniad ar gymorth ariannol a sut i ddefnyddio platfformau dysgu ar-lein, a mynd atynt. Dywed llawer o ddysgwyr fod y cyrsiau a gynigir yn fuddiol i'w hiechyd meddwl a'u lles, a bod y bartneriaeth yn canolbwyntio'n glir ar ddarparu ystod eang o gymorth ar gyfer dysgwyr a dileu rhwystrau rhag dysgu, er enghraifft trwy ddarparu meithrinfa yng nghanolfan Tŷ Calon.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae tiwtoriaid yn darparu cymorth unigol buddiol iawn i ddysgwyr yn eu sesiynau. Mae tiwtoriaid a rheolwyr yn adolygu ac addasu cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyrsiau sgiliau hanfodol a SSIE mewn cyfarfodydd chwarterol defnyddiol. Mae tiwtoriaid mewn dosbarthiadau SSIE yn darparu cymorth bugeiliol sensitif wrth gyfeirio dysgwyr sy'n ffoaduriaid at asiantaethau a all eu cynorthwyo. Mewn cyrsiau ar gyfer dysgwyr sy'n dyheu am fod yn gynorthwywyr addysgu, mae anogwyr dysgu yn cynnig cymorth ychwanegol gwerthfawr y tu allan i sesiynau ffurfiol i gynorthwyo dysgwyr i osod targedau personol ac asesu eu cynnydd.

Ar y cyfan, mae darparwyr unigol yn y bartneriaeth yn olrhain a monitro cynnydd dysgwyr yn briodol. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae prosesau i olrhain cynnydd dysgwyr ar draws y bartneriaeth mewn modd strategol trosfwaol.

Caiff hyn, a datblygu system gwybodaeth reoli, eu cydnabod yn bwyntiau gweithredu gan y bartneriaeth yn ei chynllun gwella.

Mae darparwyr o fewn y bartneriaeth yn hyrwyddo dewisiadau iach am ffordd o fyw yn gadarnhaol. Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio'n berthnasol ar hyrwyddo diogelwch ar-lein, ac yn rhoi cyngor ac arweiniad buddiol i diwtoriaid a dysgwyr.

Mae ychydig o ddysgwyr yn ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at weithgareddau llais y dysgwr. Nid oes gan y bartneriaeth fframwaith cyson a throsfwaol ar gyfer llais y dysgwr a gwerthuso cyrsiau ar draws darparwyr, er ei bod yn ymwybodol o hyn wrth gynllunio gwelliant.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu ac ar gyfer addysgu dysgwyr am beryglon radicaleiddio ac eithafiaeth yn briodol. Mae gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a diogelu pob un o'r darparwyr arweiniol yn cyd-fynd â pholisïau diogelu corfforaethol Sir y Fflint a Wrecsam. Mae darparwyr arweiniol y bartneriaeth yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd a manwl mewn cyfarfodydd chwarterol ar iechyd a diogelwch, cydymffurfio â'r gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS), hyfforddiant diweddaru diogelu staff a materion yn ymwneud ag eithafiaeth a radicaleiddio.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Caiff y bartneriaeth a ffurfiwyd yn ddiweddar gefnogaeth gref gan brif swyddogion addysg yr awdurdod lleol a chan aelodau etholedig. Mae gan uwch swyddogion a rheolwyr y bartneriaeth o'r ddau awdurdod rôl bwysig mewn rheoli a goruchwylio'r bartneriaeth. Mae arweinwyr ar bob lefel yn modelu arweinyddiaeth gref a disgwyliadau uchel o bartneriaid, ac mae'r holl aelodau'n rhannu gweledigaeth y bartneriaeth. Anghenion dysgwyr yn eu cymunedau sydd wrth wraidd y ddarpariaeth. Mae uwch arweinwyr ac aelodau'r bartneriaeth yn gweithio'n agos i ddatblygu darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd a'r rhai sydd angen cymorth sylweddol, cyn iddynt allu symud ymlaen at gyfleoedd dysgu mwy ffurfiol.

Mae'r bartneriaeth wedi defnyddio model tendro a chomisiynu i benodi pum darparwr arweiniol sydd, ynghyd â Coleg Cambria ac Addysg Oedolion Cymru, yn darparu bron yr holl ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn gosod dyheadau uchel iawn ar gyfer y bartneriaeth, y darparwyr ac ar gyfer dysgwyr. Mae'r weledigaeth ar gyfer y bartneriaeth yn uchelgeisiol, ac yn adlewyrchu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu yn y gymuned, ac i Gymru fod yn wlad lle mae ail gyfle i ddysgu.

Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ar sail didwylledd, diffuantrwydd a gonestrwydd sy'n caniatáu her. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, a natur darpariaeth ei gilydd. Mae hyn yn osgoi dyblygu dosbarthiadau a chystadleuaeth ddi-fudd. Mae'r bartneriaeth yn weithgar wrth geisio cael cyllid ychwanegol i arloesi ac ymestyn y ddarpariaeth ymhellach. Er enghraifft, datblygwyd mynediad at hyfforddiant un i un trwy fenter Ymestyn yn Ehangach.

Ceir cynllunio trylwyr i asesu anghenion dysgwyr yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol gan ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth ddemograffig, gwybodaeth am y farchnad lafur a deallusrwydd gan nifer fawr o sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth ehangach.

Mae gan y bartneriaeth rôl weithredol mewn helpu cymunedau i ddatblygu, ac mewn cynorthwyo dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn cynllunio ar gyfer cynllunio dilyniant yn ofalus ac yn effeithiol, i sicrhau bod y bartneriaeth yn parhau i gael ei rhedeg yn esmwyth. Cefnogir hyn gan bolisïau, strategaethau a chynlluniau datblygu cadarn. Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod bob chwarter i adolygu cynnydd, ac yn hyblyg o ran newid ac addasu wrth i'r ddarpariaeth ddatblygu.

Mae gan uwch arweinwyr ymwybyddiaeth glir o gryfderau'r bartneriaeth ei hun, a'r meysydd i'w gwella. Maent yn cydnabod yr heriau sydd o'u blaenau, ac yn dangos ymrwymiad a phenderfynoldeb i fynd i'r afael â'r rhain, er enghraifft wrth ddatblygu system rheoli data i olrhain deilliannau a chynnydd dysgwyr, a datblygu mecanweithiau i gofnodi adborth am lais y dysgwr ar draws y bartneriaeth.

Mae prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso'r bartneriaeth yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol gyda phob un o'r darparwyr arweiniol. Mae'r cyfarfodydd yn trafod arsylwadau, rheoli perfformiad a diogelu. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio gwybodaeth o'r cyfarfodydd hyn i gynllunio'i blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol ar draws y bartneriaeth yn dda.

Ar hyn o bryd, mae darparwyr arweiniol unigol yn gweithredu eu prosesau sicrhau ansawdd eu hunain, gan gynnwys arsylwadau gwersi. Fodd bynnag, mae methodoleg ac effeithiolrwydd presennol arsylwadau gwersi yn amrywio ar draws partneriaid. O ganlyniad, nid oes gan y bartneriaeth oruchwyliaeth glir o addysgu a dysgu ar draws y bartneriaeth.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi sefydlu pwyllgor ansawdd i fonitro ac adolygu prosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth, ac adrodd a chynllunio gwella ansawdd a gwerthuso deilliannau ar draws y bartneriaeth. Mae'r pwyllgor ansawdd yn cynnwys cynrychiolaeth ac aelodaeth briodol o uwch arweinwyr o sefydliadau'r bartneriaeth. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith gwaith y pwyllgor.

Hefyd, mae'r bartneriaeth wedi sefydlu grŵp cwricwlwm i gynyddu cydweithio a lledaenu gwybodaeth rhwng partneriaid. Ceir enghreifftiau eisoes o'r modd y mae sefydliadau partner wedi elwa trwy'r cyfranogiad hwn o ran rhannu arfer dda, syniadau a chysylltiadau defnyddiol.

Mae'r bartneriaeth yn darparu dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer staff, gan gynnwys themâu fel cyflwyno digidol, niwroamrywiaeth a deall problemau'n ymwneud ag eithafiaeth a radicaleiddio.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i ddysgwyr a’r holiadur i staff

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, llywodraethwyr (lle bo’n briodol), uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau’r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  13/09/2022